



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-19: ymgyngoriad

27 Hydref 2014 – 06 Ionawr 2015



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Rhagair

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad newydd. Rydyn ni'n benderfynol o wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae hyn yn ei gynnig a bod yn **angerddol** ac **uchelgeisiol** ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth, o ran ein staff ac o ran y rhai sy'n defnyddio adnoddau naturiol Cymru. Mae yna lawer i'w wneud, ond, i lwyddo, mae'n rhaid i fod yn **ddisgybledig** a **chanolbwytio** ar ein tasgau. Byddwn yn chwilio am **gyfleoedd** i gynyddu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy gyfathrebu'n eang, bod yn fwy mentrus ac ymatebol a chysylltu'n well â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Rydyn ni wedi ymrwmo i fod yn **sefydliad sy'n dysgu** – yn dysgu oddi wrth ein profiadau a'n hymarferion ni a rhai eraill o dros y byd i gyd a dod yn ddoethach yn y broses.

Drwy ganolbwytio ar **ganlyniadau**, rydyn ni'n gobeithio datblygu ein staff i'w llawn botensial, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ac yn sicrhau y bydd pob penderfyniad yn cael ei seilio ar **dystiolaeth** a barn **gadarn**. Ein gobaith yw y bydd ein staff, eu cynrychiolwyr a phobol Cymru yn **ymdiried** ynom ni – a byddwn yn **broffesiynol** ym mhopeth y byddwn yn ei wneud.

Yn ddiweddar, cafodd nifer o'n rhanddeiliaid eu holi ynghylch y ffordd rydyn ni'n gweithio ac ynghylch y blaenoriaethau y dylen ni eu mabwysiadu ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rydyn ni, ar hyn o bryd, yn cymryd hyn gam ymhellach drwy gyflwyno ein **Hamcanion Cydraddoldeb** ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Fe hoffen ni gael eich barn ar yr hyn rydyn ni'n ei gynnig ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y pedair blynedd nesaf. Byddwn yn ei ddefnyddio i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Rydyn ni'n gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr ymgynghoriad hwn ac y byddwch yn cael eich ysbrydoli i anfon eich sylwadau i helpu i ffurfio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a hefyd i gydweithio â ni i wireddu ei ddyheadau.

Ashleigh Dunn
Darpar Gyfarwyddwr Gweithredol
Datblygu Sefydliadol a Materion Pobl

Y rheswm dros yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cyfres o gynigion cydraddoldeb gwrthrychol sy'n dangos yr hyn y bwriadwn ei wneud yn ystod y pedair blynedd nesaf a dyma fydd prif ran yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Fe fydden ni'n hoffi i chi ystyried a chyflwyno sylwadau ar yr amcanion hyn; bydd hynny'n ein helpu i baratoi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2015-2019.

Rydyn ni'n sefydliad newydd a hwn fydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf. Rydyn ni eisiau bod yn siŵr ein bod wedi ystyried barn ein rhanddeiliaid: rydyn ni'n awyddus i gael eich sylwadau chi.

Mae gennym ni gylch gorchwyl eang iawn ac mae adnoddau'n brin, felly allwn ni ddim gwneud popeth ym mhob man. Mae gennym ni nifer fawr o ddyletswyddau statudol, mae rhain yn cael eu gosod gan y gyfraith ac mae'n rhaid i ni eu cyflawni. Allwn ni ddim, a fydden ni ddim yn dymuno, eu cyflawni ein hunain. A dyw'r holl atebion ddim gennym ni, rydyn ni eisiau clywed sut y gallwn ni ddysgu a gweithio gyda sefydliadau a grwpiau eraill yn y ffyrdd gorau posibl er budd Cymru.

Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol fis Ebrill 2015. Bydd yn dangos ein cyfeiriad strategol ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

Yn ystod haf 2014, ar y cyd â Diverse Cymru, buom yn cynnal chwe digwyddiad lle'r oedden ni a sefydliadau eraill yn dod ynghyd i drafod beth ydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n gweithio. Dangosodd hyn amrywiaeth eang o syniadau. Rydyn ni wedi'u hystyried wrth baratoi'r ddogfen hon a byddwn yn eu cadw yn y cof hefyd wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad pan fyddwn yn paratoi fersiwn derfynol y cynllun.

Drwy dreulio amser a gwranddo ar ein rhanddeiliaid rydyn ni eisoes yn teimlo ein bod mewn sefyllfa gadarnach ar gyfer symud ymlaen. Rydyn ni eisiau adeiladu ar hyn a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar ein cynigion. Bydd hyn yn gyfle i amrywiaeth hyd yn oed ehangach o gyfranwyr ein helpu i baratoi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ei ffurf derfynol.

Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn

Fe hoffen ni gael eich barn ar a yw'r amcanion cydraddoldeb sy'n cael eu cynnig yn dangos y cyfeiriad cywir i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o gynigion ynghylch sut rydyn ni eisiau gweithio.

Fe hoffen ni i chi ddweud wrthym ni a ydyn ni, yn eich barn chi, yn canolbwyntio ar y meysydd gwaith iawn, a oes yna fylchau o bwys a sut y gallwn ni weithio mewn partneriaeth i wireddu ein cynigion. Yn fyr, sut allwn ni gael y canlyniadau gorau i Gymru?

Ar ôl yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Soniwch wrthyn ni beth ydych chi'n feddwl drwy gwblhau'r ffurflen ymateb sydd gyda'r ymgynghoriad hwn a'i hanfon at equalities@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Neu

Y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Cyfoeth Naturiol Cymru
Llawr 3
Tŷ Cambria
29 Newport Road
Caerdydd
CF24 0TP

Daw'r ymgynghoriad i ben ar **06 Ionawr 2015**.

Pwy ydyn ni a beth ydyn ni'n ei wneud

Mae'r adran hon yn cynnwys peth gwybodaeth gefndir ar Cyfoeth Naturiol Cymru a, cyn ein bod yn cyflwyno ein cynigion, fe hoffen ni eich sylwadau chi ar:

Ein diben...

Yw sicrhau fod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella'n gynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Ein Pobl

Mae gennym ni tua 2,000 o staff ym mhob rhan o Gymru, yn wyddonwyr, peirianwyr, coedwigwyr, arbenigwyr hamdden ac addysg, pobl yn gweithio gyda chymunedau lleol yn ogystal â llawer o rai eraill sy'n galluogi ein sefydliad i weithio'n effeithiol ac yn effeithlon.

Rydyn ni eisiau i Gymru...

Fod yn rhywle lle mae ein haer, ein tir a'n dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a bod y bobl sy'n gweithio ac yn defnyddio'r adnoddau naturiol ar gyfer hamddena'n cael eu trin yn gyfartal a chydag urddas a pharch.

Fel Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb cyfreithiol a moesol i gydymffurfio â'r dyletswyddau "cyffredinol" a "phenodol" sy'n cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r cyfrifoldebau cyffredinol yn gosod tri chyfrifoldeb penodol arnom ni:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai heb y nodwedd honno, a
- Meithrin perthynasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai heb y nodwedd honno.

Mae gennym ni amrywiaeth eang o swyddogaethau a chyfrifoldebau. Mae rhai'n statudol, sy'n golygu eu bod yn cael eu gosod gan y gyfraith a bod yn rhaid i ni eu gweithredu. Gydag eraill, mae gennym ni ddisgresiwn sut i'w gweithredu ond maen nhw, hefyd yn cyfrannu at ein diben cyffredinol.

Mae ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau'n cynnwys:

- **Darparwydd a galluogydd gweithgareddau hamdden:** gweithredu canolfannau ymwelwyr ledled Cymru, 550 cilometr o lwybrau beicio mynydd, 130 cilometr o lwybrau merlota, 450 cilometr o lwybrau cerdded a nifer fawr o fannau picnic, yn ogystal â helpu eraill i ddarparu cyfleoedd i hamddena.
- **Prif ymgynghorydd:** i Lywodraeth Cymru ar yr amgylchedd ac adnoddau naturiol
- **Ymgynghorydd statudol:** rydyn ni'n ymateb i tua 9,000 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn
- **Awdurdod dynodi:** ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig - ardaloedd o werth neilltuol oherwydd eu bywyd gwylt neu eu daeareg ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- **Rheoleiddiwr:** gwarchod pobl a'r amgylchedd drwy ddefnyddio mwy na 40 o wahanol setiau o reoliadau gan gynnwys rhai ar gyfer safleoedd dynodedig, yr amgylchedd forol, coedwigaeth a'r diwydiannau niwclear, gwastraff a dŵr
- **Rheoli tir:** 7% o arwynebedd Cymru gan gynnwys coetiroedd, dŵr a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- **Gweithredydd Amgylcheddol:** rheoli dros 120,000 hectar o goetiroedd, cynnal bron i 2,000 milltir o amddiffynfeydd llifogydd a rhedeg ein labordy ein hunain
- **Ymateb i ddigwyddiadau:** ymdrin â bron i 9,000 o ddigwyddiadau a chyflwyno rhybuddion llifogydd i bron 100,000 o bobl.
- **Gweithredydd masnachol:** marchnata tua 825,000 metrau ciwbig o bren a chyflawni tua 300 o gontractau cynaeafu coed
- **Erllyn:** gweithredu gorfodaeth yn erbyn, ac erlyn, y rhai sy'n torri'r rheoliadau a'r cyfreithiau rydyn ni'n gyfrifol am eu cadw
- **Partner:** cydweithredydd allweddol gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol wrth gyflawni prosiectau er budd Cymru.
- **Addysgydd:** helpu bron i 20,000 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn i ddysgu yn, ac ynghylch, yr amgylchedd naturiol a helpu pobl eraill i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd addysgol.
- **Galluogydd:** darparu tua £10 miliwn yn uniongyrchol i bartneriaid er budd yr amgylchedd a chymunedau
- **Casglu tystiolaeth:** monitro ein hamgylchedd, comisiynu a chynnal ymchwil a datblygu gwybodaeth

Rydyn ni'n gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau mewn llawer o wahanol ffyrdd, o ffermwyr a rheolwyr tir i fusnesau, diwydiant, cynllunwyr a datblygwyr, o lywodraeth genedlaethol a lleol i grwpiau â diddordeb a chymunedau lleol, gwyddonwyr a sefydliadau academaidd. Rydyn ni'n gwneud cyfraniad pwysig i bron bob agwedd o fywyd Cymru.

Rydyn ni wedi ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth – rydyn ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ein staff, ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn

yn cael ei wreiddio yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn y ffordd rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau i bobl Cymru a bydd yn cyfarfod yn llawn â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Sefydlu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dangos yr amcanion cydraddoldeb uchelgeisiol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu eu defnyddio i osod cyfeiriad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn cyfarfod â'n cyfrifoldebau cyfreithiol a hefyd i wireddu'r buddion busnes ehangach sy'n deillio o gael agwedd positif at gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r dyletswyddau penodol yn gosod gofynion ychwanegol ynghylch y naw grŵp gyda nodweddion gwarchoddedig.

- Oedran
- Cred neu heb gred
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hîl
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Rydyn ni wedi penderfynu y dylai ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ddilyn thema ein Cynllun Corfforaethol gan ei seilio ar y pum rhaglen 'dda'. Bydd pob rhaglen yn cynnwys pob un o'r nodweddion gwarchoddedig oni bai bod y cynllun yn datgan bod amcan neu weithredu'n cyfeirio at nodwedd benodol.

Y pum rhaglen 'dda':

- Da am wybodaeth
- Da i'r amgylchedd
- Da i bobl:
- Da i fusnes:
- Da i'r sefydliad

Ein nodau

Bydd llwyddo i lansio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i fonitro ac adrodd arno ar ôl hynny o help i bobl Cymru ddeall y negeseuon ynghylch, a buddion, amgylchedd da. Byddwn yn ymdrechu i gyfathrebu mewn ffyrdd priodol fel bod y negeseuon yn cyrraedd y grwpiau (targed) priodol ac yn ein galluogi i gadarnhau i ba raddau y byddwn ni wedi llwyddo i gyrraedd y cynulleidfaoedd rydyn ni'n ceisio eu cyrraedd. Gyda Chynllun Cydraddoldeb Strategol effeithiol, byddwn yn deall sut y bydd amrywiaeth eang o gymunedau'n manteisio ar ein gwasanaethau a hefyd a oes yna unrhyw rwystrau iddyn nhw allu gwneud hynny. Hefyd, bydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ein galluogi i gynllunio, paratoi a darparu ein gwasanaethau i wahanol bobl yng Nghymru a, thrwy gasglu a gwerthuso ein tystiolaeth, byddwn yn sicrhau nad oes gogwydd ynddo a'n bod yn cynnal Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar ein polisïau, ein cynlluniau a'n prosiectau cyn penderfynu arnyn nhw .

Heblaw am ein cyfrifoldebau cyfreithiol, mae yna gorff cynyddol o dystiolaeth i ddangos bod canolbwyntio ar gydraddoldeb o fudd i fusnes, nid yn unig o ran cydymffurfio ag amcanion cydraddoldeb ond hefyd drwy wella gwasanaethau, diwylliant sefydliadol ac effeithiolrwydd yn ehangach. Hefyd, mae'n gallu gwella ein harferion cyflogaeth, ein prosesau cynghori ac yn ei gwneud yn haws i bobl Cymru fanteisio arnyn nhw a hefyd gael canlyniadau gwell. Yn ei hanfod, mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gyrru i fod, ac i wneud, yn well.

Sut ydyn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru

Rydyn ni'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae gennym ni swyddogaethau sy'n annibynnol ar y Llywodraeth ond rydyn ni'n cydnabod bod rhaid i ni gydweithio'n agos. Dyna pam ein bod wedi cytuno ar set o ganlyniadau rydyn ni'n eu rhannu. Mae'n rhaid i bopeth rydyn ni'n ei wneud gyfrannu at un neu ragor ohonyn nhw, sef:

- Gwella ein hamgylchedd
- Gwarchod pobl
- Cefnogi mentergarwch a swyddi
- Gwella iechyd y genedl
- Mannau hyfyw a bywiog
- Darparu cyfiawnder cymdeithasol
- Cefnogi sgiliau a gwybodaeth

Mae'r rhain hefyd yn greiddiol i'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn 'Ffurio Dyfodol mwy Ffyniannus a Chadarn', y datganiad Hydref a wnaed gan Alun Davies AC, y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yr adeg hynny, yn 2013. Y blaenoriaethau gweithredu yw galluogi **twf gwyrdd, defnyddio adnoddau'n effeithlon, trechu tlodi a gwella cadernid ac amrywiaeth** ein hadnoddau naturiol.

Mae'r canlyniadau hyn, rydyn ni'n eu rhannu, yn ein cloi wrth fywyd ehangach Cymru, yn canolbwyntio ein meddyliau ac yn ein cysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid. Fel hyn, bydd ein gwaith nid yn unig yn cyfrannu at ein cynlluniau a'n strategaethau ar gyfer yr amgylchedd, newid hinsawdd a'r trawsnewid i economi garbon isel, ond hefyd gyda'r strategaethau ynghylch iechyd a lles, tlodi, addysg, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac adeiladu cymunedau cadarn.

Byddwn yn derbyn llythyr cylch gwaith ar ddechrau pob blwyddyn ariannol yn dangos beth mae Llywodraeth Cymru eisiau i ni gyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith presennol i'w weld yn adran cyhoeddiadau gwefan Llywodraeth Cymru.

Cwestiynau: Ein diben

1. A yw ein dibenion a'n hamcanion yn glir ac yn ddealladwy?
2. A oes yna unrhyw ffyrdd yr hoffech chi weithio gyda ni i gyrraedd yr amcanion hyn sy'n cael eu rhannu?
3. A oes gennych chi unrhyw awgrym o ffyrdd newydd y gallwn ni eu defnyddio i ariannu ein gweithgareddau gyda'n partneriaid?

Ein gwaith: Beth ydyn ni'n ei wneud

Rydyn ni'n dangos yn yr adran hon ychwaneg o gyd-destun o'n Cynllun Corfforaethol ac yna'n nodi ein Hamcan Cydraddoldeb arfaethedig a dangos sut yr hoffem ni weithio.

Yn dilyn pob adran, mae yna set arall o gwestiynau'r hoffem ni i chi eu hystyried.

Amgylchedd Da - mae ecosystemau'n gadarn ac yn gallu wynebu'r dyfodol yn hyderus, mae bywyd gwyllt a thirluniau yn cael eu gwella ac mae ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n ofalus.

Amcan Cydraddoldeb

Byddwn yn helpu pobl Cymru, ac ymwelwyr â Chymru, ag unrhyw nodwedd warchoddedig ai peidio, i ddeall manteision amgylchedd da ac i hyrwyddo defnyddio'r adnoddau naturiol rydyn ni'n eu rheoli.

Ein meddyliau

Mae llawer o'r negeseuon sy'n cael ei hanfon allan gan sefydliadau yn gallu bod yn hynod wyddonol, yn eithaf anodd ei darllen a heb eu targedu ar, nac yn amlwg gynhwysol i, grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Felly, byddai dilyn arddull debyg o gyfathrebu yn golygu efallai na fydden ni'n cyrraedd y bobl rydyn ni eisiau eu cyrraedd.

Mae'n rhaid i'r hyn rydyn ni'n ei gyfathrebu fod ar ffurf y mae pobl ei angen ac mewn iaith sy'n egluro'r hyn y mae ein sefydliad yn canolbwyntio arno ac yn dangos ein cyfeiriad, yn ogystal â sicrhau fod ein negeseuon yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a chdir sy'n cyrraedd y cynulleidfaoedd rydyn ni'n eu targedu. Os na allwn ni gyflawni'r amcan hwn yna efallai ein bod yn rhoi rhai cymunedau neu grwpiau o ddefnyddwyr o dan anfantais.

Un pwynt a godwyd yn y digwyddiadau cyfranogiad oedd nad yw ein gwybodaeth, bob tro, yn ddefnyddiol ac y dylen ni geisio cysylltu mwy â grwpiau defnyddwyr er mwyn sicrhau, os yn bosibl, mai'r wybodaeth sydd ei angen sy'n cael ei ddarparu.

Cwestiynau: Da i'r Amgylchedd

4. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffyrdd rydyn ni'n eu hawgrymu o'u cyflawni?
5. Ydyn ni wedi methu unrhyw beth o arwyddocâd?
6. Sut y gallwn ni weithio orau mewn partneriaeth i gyflawni rhain? Beth allwch chi ei wneud i helpu?

Da i Bobl - pobl yn mwynhau, yn gwerthfawrogi ac yn cael budd o'n hamgylchedd naturiol ac yn deall ei berthnasedd i'n bywyd bob dydd.

Amcan Cydraddoldeb

Rydyn ni'n deall sut y mae cymunedau yn gallu cael y gwasanaethu rydyn ni'n eu darparu a hefyd unrhyw rwystrau y mae ein cwsmeriaid yn eu hwynebu. Byddwn yn cysylltu ag unigolion a grwpiau defnyddwyr i wneud yn siŵr fod ein cynlluniau yn addas, yn ddealladwy ac yn angenrheidiol.

Ein meddyliau

Bydd cysylltu â grwpiau pobl â nodweddion gwarchoddedig o help i gael y mewnbwn y mae'n rhaid i ni ei gael i gael pethau'n iawn. Bydd hyn hefyd yn helpu i fagu perthynas gyda'r grwpiau hynny a fydd yn ein helpu ni i ddarparu'r gwasanaethau iawn yn y ffordd iawn. Dylen ni hefyd geisio gwneud ein rhaglenni addysgu a dysgu, a'n hystâd a'n hadnoddau hamdden mor hawdd â phosibl i holl bobl Cymru eu defnyddio fel bod cymaint â phosibl yn cael budd ohonyn nhw.

Allwn ni ddim gwneud hyn yn iawn ar ein pen ein hunain, felly mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud ein gorau i ganfod a chysylltu â grwpiau allanol o bobl â nodweddion gwarchoddedig a gofyn iddyn nhw gydweithio â ni wrth i ni ddarparu gwasanaethau i bobl ac ymwelwyr â Chymru.

Byddwn yn cynnal Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar ein cynlluniau, ein polisiau a'n prosiectau er mwyn i ni allu rhagweld effeithiau swyddogaethau a pholisiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr aseidiadau hyn yn ein helpu i ddeall anghenion y grwpiau ac i wneud yn siŵr y bydd effeithiau niweidiol, cyn belled ag y mae'n bosibl, yn cael eu dileu a bod cyfleodd i hyrwyddo cydraddoldeb i'r eithaf yn cael eu nodi.

Cwestiynau: Da i Bobl

7. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffyrdd rydyn ni'n eu hawgrymu o'u cyflawni?
8. Ydyn ni wedi methu unrhyw beth o arwyddocâd?
9. Sut y gallwn ni weithio orau mewn partneriaeth i gyflawni rhain? Beth allwch chi ei wneud i helpu?

Da i Fusnes – ‘lleoliad o ddewis’ i fusnesau a mentrau a lle sy'n mabwysiadu ac yn annog yr ymarfer amgylcheddol gorau.

Amcan Cydraddoldeb:

Rydyn ni'n gosod safonau a disgwyliadau clir wrth ddarparu ac wrth gaffael ein gwasanaethau sy'n galluogi ac yn gyrru cydraddoldeb o ran cyfleoedd. Rydyn ni'n sicrhau ein bod yn perfformio yn unol â'r safonau hynny ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu sefydlu ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

Ein meddyliau

Mae busnes da yn cynnwys meysydd o gyflwyno cyngor, rheoleiddio, gorfodi a'r ffordd rydyn ni'n caffael ein gwasanaethau. Mae yna gyfleoedd ym mhob un o'r rhain i gael ymarfer da o ran grwpiau nodweddig gwarchoddedig.

Dylem sicrhau fod ein cyngor a'n canllawiau ar gael i bawb a gallai hynny olygu teilwra'r hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ei wneud i gyfarfod ag anghenion gwahanol grwpiau. Wrth gaffael, mae'n rhaid i ni sicrhau fod sefydliadau sy'n ein cyflenwi yn cydymffurfio â'n safonau a'n moesegau ni, gan gynnwys sut y maen nhw'n sicrhau fod yna gyfleoedd cyfartal yn eu sefydliadau nhw eu hunain.

Gallwn lwyddo i wneud hyn drwy gysylltu â mentrau bach a chanolig, drwy deilwra ein negeseuon a thrwy fod yn glir ynghylch y ffordd y maen nhw'n cael eu darparu i gyfarfod ag anghenion y gwahanol grwpiau sy'n rhedeg y busnesau hynny (e.e. efallai na fydd busnesau'n cael eu rhedeg gan leiafrifoedd ethnig yn gallu manteisio ar yr un rhwydweithiau i gael cyngor â grwpiau eraill).

Cwestiynau: Da i fusnes:

10. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffyrdd rydyn ni'n eu hawgrymu o'u cyflawni?
11. Ydyn ni wedi methu unrhyw beth o arwyddocâd?
12. Sut allwch chi weithio orau mewn partneriaeth i gyflawni rhain?

Da am Wybodaeth- magu doethineb a dealltwriaeth am ein hamgylchedd naturiol a sut rydyn ni'n effeithio arni – gan ddefnyddio tystiolaeth a thrwy ddysgu o brofiad er mwyn gallu cymryd penderfyniadau da

Amcan Cydraddoldeb

Rydyn ni'n casglu ac yn gwerthuso data a thystiolaeth, yn sicrhau nad yw'n dioddef o ogwydd ac ein bod ni'n cymryd penderfyniadau ar ein cynlluniau, polisiau a'n prosesau, ar ôl cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb sy'n cael eu seilio ar ddata a thystiolaeth.

Ein meddyliau

Mae yna nifer o gyfleoedd yma ar gyfer ymarfer da gyda grwpiau nodweddion gwarchoddedig, megis gwneud yn siŵr ein bod yn comisiynu casglu data sy'n llawn gwybodaeth ac sy'n ein galluogi i gymryd penderfyniadau'n hyderus ar sail y data hwnnw. Mae'n rhaid i ni gael gwared ar unrhyw rwystrau y gallai pobl eu hwynebu i gael at ein gwybodaeth, waeth sut y bydd y rhain yn cael eu darparu.

Drwy fod â sail gwybodaeth y gallwn ni ymddiried ynddo, byddwn yn gallu rhannu ein setiau data yn fewnol ac yn allanol, un ai gyda'r rhai â nodweddion gwarchoddedig neu gyda'r rhai sy'n cymryd penderfyniadau a allai effeithio ar grwpiau nodweddion gwarchoddedig, i'w galluogi i gymryd penderfyniadau gwybyddus megis cael at yr adnoddau naturiol rydyn ni'n eu rheoli.

Mae edrych ar rannu gwybodaeth fel proses o bontio rhyngddibyniaethau yn ymestyn ein dealltwriaeth o sut ydyn ni'n effeithio ar bobl Cymru ac y tu hwnt i'n ffiniau.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau fod gan ein sefydliad neges gref a phwysig ac nid oes unrhyw brinder o gynnwys i'n helpu i adrodd ein stori. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar yr hyn rydyn ni'n ei rannu yn hytrach nag ar pam ei fod yn cael ei rannu.

Cwestiynau: Defnyddio gwybodaeth dda

13. Ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffyrdd rydyn ni'n eu hawgrymu o'u cyflawni?
14. Ydyn ni wedi methu unrhyw beth o arwyddocâd?
15. Sut y gallwch chi weithio orau mewn partneriaeth i gyflawni rhain?

Da fel Sefydliad -

Amcan Cydraddoldeb:

Rydyn ni'n gobeithio y bydd ein gweithlu'n fwy cynrychioladol o'r nodweddion gwarchoddedig a bydd yn rhaid i ni ddatblygu diwylliant o weithio lle bydd pobl yn teimlo y byddan nhw'n gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Ein meddyliau

Drwy annog a gweithio gyda staff Cyfoeth Naturiol Cymru ar bob lefel, a gyda'u rhwydweithiau cynrychioli staff, fe allwn ni ddeall yn well y problemau a'r rhwystrau sy'n wynebu staff sy'n perthyn i grŵp(iau) nodweddion gwarchoddedig.

Rydyn ni'n gwybod nad yw ein gweithlu ar hyn o bryd yn gynrychioladol o'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu a, gan mai ychydig o recriwtio o'r tu allan a ragwelir yn ystod y blynyddoedd nesaf, na fydd hyn yn newid llawer yn fuan. Fodd bynnag, mae yna rai meysydd lle gallwn ni gymryd camau i wneud iawn am hyn, i ryw raddau, a byddwn yn chwilio am gyfleoedd megis cynlluniau prentisiaethau a gwirfoddoli.

Mae'n rhaid i ni gasglu data cywir o bwy sydd yn ein gweithlu ar hyn o bryd a monitro hynny'n fanwl, gweithredu lle gallwn ni, gweithredu i ganolbwyntio ar feysydd lle rydyn ni'n cael ein tangynrychioli ac adrodd ar ein canfyddiadau. Mae manylion gwybodaeth staff yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiadau Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn trin unrhyw wybodaeth a gesglir ynghylch cydraddoldeb yn hollol gyfrinachol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn gyfrifol.

Mae'n bwysig fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru y diwylliant iawn fel bod pobl yn teimlo'n hyderus y gallan nhw fod yr hyn ydyn nhw yn y gweithle.

Unwaith y byddwn ni'n deall yn well pwy ydyn ni fel sefydliad ac yn cysylltu gyda staff o wahanol grwpiau nodweddion gwarchoddedig, byddwn mewn lle gwell i feithrin ein rhwydweithiau staff a'u helpu i gynyddu o ran nifer.

Mae ein diwylliant o'r pwysigrwydd pennaf i ni ac mae diwylliant da o gydraddoldeb a pharch yn hollbwysig i lwyddiant ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Cwestiynau: Sut y byddwn ni'n gweithio

16. Ydych chi'n cytuno â sut rydyn ni'n bwriadu datblygu ein sefydliad?
17. Beth fyddai'n ei gwneud yn haws i chi gydweithio â ni?

Sut y byddwn ni'n mesur llwyddiant: Adrodd ar ein darpariaeth

Fel sefydliad sy'n darparu, mae'n rhaid i ni allu dangos pa mor dda rydyn ni wedi perfformio, yn unigol ac ar y cyd â'n partneriaid, ac a yw pobl a chymunedau ar eu mantais oherwydd hynny.

Bydd yr ymgynghoriad hwn, a'r trafodaethau rydyn ni wedi'u cynnal gyda'n rhanddeiliaid, yn ei gwneud yn fwy eglur i ni beth mae ein cwsmeriaid eisiau i ni ei wneud, i nodi beth fydd yn dangos llwyddiant ac yn ein galluogi i ddatblygu ein nodau.

Bydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys y nodau hyn a'r fframwaith ar gyfer asesu ein perfformiad wrth eu cyrraedd. Bydd hyn yn adlewyrchu ein cyfraniad wrth lwyddo i gyflawni'r canlyniadau sy'n cael eu rhannu sy'n cael eu crybwyll yn gynharach yn y ddogfen hon.

Byddwn yn cyhoeddi dangosyddion ar gyfer y canlyniadau hyn y byddwn yn gallu eu tracio. Byddwn hefyd yn gosod mesurau perfformiad i ddangos faint ydyn ni wedi'i wneud, pa mor dda roedden i'n gwneud hynny a beth yw'r canlyniadau.

Byddwn yn agored wrth adrodd ar ein cyflawniadau yn erbyn ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynlluniau Busnes. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn ein Hadroddiad Blynyddol a bydd ein Bwrdd yn trafod ein perfformiad yn agored o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

Cwestiynau: Adrodd ar ein darpariaeth

18. Ai dyma'r ffordd orau i ni asesu ein darpariaeth?
19. Wyddoch chi am unrhyw ddangosyddion penodol rydych chi o'r farn y dylem ni eu tracio?
20. Sut y byddai llwyddiant yn edrych?

...ac yn olaf:

21. A hoffech chi gyflwyno unrhyw sylwadau eraill?

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar ein gwefan ac yn defnyddio eich barn i helpu i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

I holi neu i gyflwyno sylwadau, neu i gael y ddogfen hon ar ffurf wahanol, cysylltwch **equalities@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Newport Road
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun - Gwener, 8am - 6pm)

enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru o flaen llaw